SENEDD IEUENCTID CYMRU

# MAE'N DECHRAU GYDA TI!



seneddieuenctid.cymru

> *Bob yn dipyn, rydym yn creu'r fersiwn orau bosibl o Gymru.*
>
> **Ollie Mallin**
> **Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru 2018-2020, 2021-2024**



# GWEITHIO I TI!

## NI YW'R SENEDD I BOBL IFANC YNG NGHYMRU.

Mae Senedd Ieuenctid Cymru yn rhoi pŵer yn nwylo pobl ifanc fel ti.

Fel y Senedd, bydd Senedd Ieuenctid Cymru yn cynnwys 60 o Aelodau a fydd yn cynrychioli pobl ifanc ar hyd a lled Cymru.

Bydd 40 o Aelodau'n cael eu hethol i Senedd Ieuenctid Cymru drwy gynnal etholiad ym mis Tachwedd 2024. Caiff y 20 arall eu hethol gan sefydliadau partner. Drwy wneud hyn rydyn ni'n sicrhau bod grwpiau amrywiol o bobl ifanc yn cael eu cynrychioi. .

## MAE'N DECHRAU GYDA TI!

# DEFNYDDIA DY LAIS!

### CAIFF AELODAU SENEDD IEUENCTID CYMRU EU  HETHOL AM GYFNOD O DDWY FLYNEDD.

Yn ystod y ddwy flynedd hynny, bydd y 60 Aelod yn gweithio gyda'i gilydd i edrych ar y materion sy'n bwysig i bobl ifanc Cymru.

**Bydd Senedd Ieuenctid Cymru:**

- yn grymuso pobl ifanc fel ti i benderfynu ar yr hyn sy'n bwysig, tynnu sylw atynt a'u trafod.
- yn gwrando ar bobl ifanc yng Nghymru, yn cynrychioli eu barn, ac yn gweithredu ar y materion sy'n bwysig iddyn nhw.
- yn gweithio gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol i godi'r materion hyn a galw am newid.

### MAE DY LAIS YN BWERUS!

> *Dwi'n teimlo os alla' i arwain sgwrs, bydda' i'n gallu newid pethau.*
>
> **Laura Green**
> ***Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru 2021-2024***





> *Mae'r profiad o gynrychioli pobl ifanc o bob rhan o'm hetholaeth a'r tu hwnt wedi bod yn anhygoel.*
>
> ***Maisy Evans***
> ***Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru 2018-2020***


# CYNRYCHIOLI DY GYMRU DI!

## RWYT TI'N GALLU DEFNYDDIO DY BLEIDLAIS I BENDERFYNU PWY SY'N DY GYNRYCHIOLI DI A DY RAN DI O GYMRU YN SENEDD IEUENCTID CYMRU.

Mae Cymru wedi'i rhannu'n 40 o ardaloedd sy'n cael eu galw'n etholaethau, ac mae pob etholaeth yn cael ei chynrychioli gan Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru.

Mae'n bosibl gweld ym mha etholaeth y mae dy gartref, dy ysgol neu dy goleg drwy roi dy god post ar wefan y Senedd: ***senedd.cymru/aelodau***.

Bydd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn gweithio gyda'i gilydd, a gyda phobl ifanc eraill yn eu hardaloedd lleol, ar faterion sy'n bwysig i bobl ifanc o bob rhan o Gymru.




## GOGLEDD CYMRU:

1. Ynys Môn
2. Arfon
3. Aberconwy
4. Gorllewin Clwyd
5. Dyffryn Clwyd
6. Delyn
7. Alun a Glannau Dyfrdwy
8. Wrecsam
9. De Clwyd
10. Dwyfor Meirionnydd
11. Sir Drefaldwyn

## CANOLBARTH CYMRU:

12. Ceredigion
13. Brycheiniog a Sir Faesyfed
14. Preseli Sir Benfro
15. Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
16. Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
17. Llanelli

## GORLLEWIN DE CYMRU:

18. Gŵyr
19. Gorllewin Abertawe
20. Dwyrain Abertawe
21. Castell-nedd
22. Aberafan
23. Ogwr
24. Pen-y-bont ar Ogwr
25. Rhondda
26. Cwm Cynon
27. Pontypridd
28. Bro Morgannwg

## DWYRAIN DE CYMRU:

29. Gorllewin Caerdydd
30. Gogledd Caerdydd
31. Canol Caerdydd
32. De Caerdydd a Phenarth
33. Merthyr Tudful a Rhymni
34. Blaenau Gwent
35. Torfaen
36. Mynwy
37. Caerffili
38. Islwyn
39. Gorllewin Casnewydd
40. Dwyrain Casnewydd

> *Fel Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, rwy'n meddwl yr hoffwn i bob un ohonon ni gael effaith gadarnhaol ar y materion rydyn ni wedi'u dewis.*
>
> **Hermione Vaikunthanathan-Jones**
> ***Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru 2021-2024***



# MATERION SY'N BWYSIG I TI!

## MAE SENEDD IEUENCTID CYMRU YN GWEITHIO GYDA'R RHAI SYDD MEWN GRYM I SICRHAU NEWIDIADAU I BOBL IFANC YNG NGHYMRU.

Bob tymor, bydd Senedd Ieuenctid Cymru yn trafod materion sy'n bwysig i bobl ifanc Cymru. Materion y bydd pobl ifanc fel ti'n eu hawgrymu yw'r rhain.

Gallwch ddysgu mwy am waith y Seneddau Ieuenctid blaenorol a darllen eu hadroddiadau ar ein gwefan: ***seneddieuenctid.cymru/ein-gwaith***.

# CHAMPIONING DIVERSITY!

## GWEITHIO GYDA SEFYDLIADAU PARTNER I SICRHAU SENEDD IEUENCTID CYMRU AMRYWIOL A CHYNHWYSOL.


Caiff 20 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru eu hethol gan ein sefydliadau partner, sy'n cefnogi ein gwaith.

Drwy weithio  gyda sefydliadau partner, gallwn wneud yn siŵr bod holl bobl ifanc Cymru yn cael eu cynrychioli, gan hybu amrywiaeth o fewn Senedd Ieuenctid Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am ein sefydliadau partner ar gael ar ein gwefan: **seneddieuenctid.cymru/ein-partneriaid**.

*"Rwyf am weld drysau'n agor a chyfleoedd yn cael eu cynnig i bobl ifanc ddifreintiedig, heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru.*

**Hanna Mahamed**
***Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru 2021-2024***





# EISIAU GWYBOD MWY?

## DIM OND Y DECHRAU YW HYN!

I gael y wybodaeth ddiweddaraf dilyna Senedd Ieuenctid Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol.

**SENEDDIEUENCTIDCYMRU**

**SENEDDIEUENCTIDCYMRU**

**@SENEDDIEUENCTID**

Ar ein gwefan hefyd, mae'r newyddion diweddaraf ynghylch sut i gymryd rhan yn ein gwaith a chofrestru i gael Cylchlythyr Senedd Ieuenctid Cymru: **seneddieuenctid.cymru**.

**GWEFAN:** *SENEDDIEUENCTID.CYMRU*

**INSTAGRAM:** *SENEDDIEUENCTIDCYMRU*

**FACEBOOK:** *SENEDDIEUENCTIDCYMRU*

**X:** *@SENEDDIEUENCTID*